Ymatebion i adroddiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Cyllideb Drafft 2020-21

Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion, ac esboniadau am, y trosglwyddiadau rhwng Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac ar draws MEG eraill (lle bo hynny'n berthnasol).

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Eleni ac yn y blynyddoedd blaenorol, darparwyd esboniadau ar lefel cam gweithredu yn unol â'r cais a gafwyd mewn llythyr gan gadeirydd y Pwyllgor. Ar gyfer blynyddoedd y dyfodol, gellir darparu'r wybodaeth hon ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn yr atodiad i bapur y pwyllgor.

Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am:
▪ y cymorth ymyriadau ariannol sy'n cael ei ddarparu i'r pedwar bwrdd iechyd sydd â statws ymyriadau uwch.
▪ manylion ynghylch sut mae'r arian hwn yn cael ei wario, sut mae'r gwario yn cael ei fonitro, a sut mae'n cyflawni gwerth am arian.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Mae'r tabl isod yn nodi'r cymorth ychwanegol rydym wedi ei ddarparu yn 2019-20 i'r byrddau iechyd hynny sydd mewn mesurau ymyrryd:

Bwrdd Iechyd	**Cyfanswm y cymorth £miliynau**	**Diben**
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	• £0.5 miliwn • £1.8 miliwn • £3.1 miliwn • £0.3 miliwn	• Cynllunio ariannol a chymorth i ddarparu • Diogelu gwasanaethau orthopedig cynaliadwy • Gallu rheolaethol y sefydliad • Cymorth i ddychwelyd adref i bobl â chyflyrau iechyd meddwl ac anableddau dysgu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg	• £3.0 miliwn	• Cymorth i weithredu er mwyn gwella'r meysydd sydd dan fesurau arbennig ac ymyrraeth wedi'i thargedu

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	• £1.6 miliwn • £0.2 miliwn • £0.4 miliwn	• Cymorth i'r rhaglen drawsnewid • Cymorth Trawsnewid a Datblygiad Sefydliadol • Cynllunio ariannol a chymorth i ddarparu
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe	• £0.4 miliwn • £0.8 miliwn	• Cynllunio ariannol a chymorth i ddarparu • Cymorth ar gyfer ymyrraeth wedi'i thargedu

Mae cynnydd yn y ffordd y caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio er mwyn sicrhau gwelliannau disgwyliedig yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd ymyrraeth rheolaidd a gynhelir rhwng fy uwch swyddogion a chyfarwyddwyr gweithredol y byrddau.

Yn ychwanegol at y symiau penodol uchod, mae'r byrddau hyn yn gallu cael gafael ar gyllid a ddyrennir yn ehangach ledled GIG Cymru er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r gwasanaethau a'r pwysau sydd ar y gwasanaethau hynny, yn cynnwys cyllid perfformiad, cyllid pwysau'r gaeaf a'r Gronfa Trawsnewid.

Argymhelliad 3. Rydym yn argymell, yn rowndiau cyllideb y dyfodol, bod Llywodraeth Cymru yn dangos sut bydd ei dyraniadau cyllid yn ategu newid cynaliadwy hirdymor wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Fel rhan o hyn, rydym yn disgwyl gweld rhagor o ffocws strategol ar drawsnewid ac atal yn y gyllideb, a chyflwyniad cliriach o'r cyllid a ddyrannir at ddibenion atal a thrawsnewid.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn mewn egwyddor. Byddwn yn parhau i fframio ein cynlluniau ar gyfer gwariant yn rowndiau cyllideb y dyfodol o amgylch gwireddu'r weledigaeth o system iechyd a gofal cymdeithasol integredig fel y nodir yn Cymru Iachach. Yn unol â'r Cynllun Gwella'r Gyllideb a gyhoeddwyd gyda'r Gyllideb Ddrafft, byddwn yn defnyddio'r diffiniad o atal i gefnogi ffocws parhaus a chynyddol ar fuddsoddi mewn gweithgareddau ataliol, yn ogystal â buddsoddi mewn gweithgareddau ataliol, yn ogystal â buddsoddi yn y gwaith o drawsnewid gwasanaethau. Byddwn yn ystyried sut i sicrhau bod y buddsoddiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n glir yn nogfennau ein cyllideb ac mewn unrhyw dystiolaeth graffu.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell:

▪ bod Llywodraeth Cymru yn cymryd safbwynt cryfach ar fwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu Gweithrediaeth y GIG, gan ddarparu'r cyfarwyddyd a'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau ei bod ar waith erbyn hydref 2020.
▪ y dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn tri mis.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Bydd creu Gweithrediaeth benodol y GIG yn cyflawni'r ymrwymiad yn Cymru Iachach, sef "dod â gweithgareddau cynllunio, cyflawni a pherfformiad priodol ynghyd fel swyddogaeth Gweithrediaeth GIG Cymru"; a bydd yn cefnogi rhai o elfennau o gyflawni'r ymrwymiad cysylltiedig i "adolygu swyddogaethau cynghori arbenigol, swyddogaethau cenedlaethol a rhaglenni cyflawni cenedlaethol eraill, gyda'r nod o grynhoi gweithgarwch cenedlaethol ac egluro llywodraethiant ac atebolrwydd".

Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn y broses o ddiffinio union swyddogaethau Gweithrediaeth y GIG. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ac mae gan randdeiliaid rôl bwysig o ran sefydlu mandad Gweithrediaeth y GIG. Er fy mod wedi cytuno i gyfres o swyddogaethau lefel uchel iawn ar gyfer Gweithrediaeth y GIG, ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn cyflawni ymarfer er mwyn deall yn llawn sut y bydd y swyddogaethau lefel uchel hynny yn gweithredu'n ymarferol. Mae'r sefydliadau sy'n addas ar hyn o bryd i'w cynnwys yng Ngweithrediaeth y GIG yn rhan lawn o'r broses hon ynghyd â Phrif Weithredwyr y GIG.

Ar hyn o bryd, mae swyddogion wrthi'n sefydlu Bwrdd Rhaglen er mwyn goruchwylio'r broses o sefydlu Gweithrediaeth y GIG, a bydd y Bwrdd Rhaglen yn rhoi arweiniad ac yn sicrhau bod yr adnoddau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod Gweithrediaeth y GIG yn cael ei sefydlu'n llwyddiannus.

Byddaf yn gwneud datganiad pellach ar y cynnydd tuag at sefydlu Gweithrediaeth y GIG ym mis Mawrth.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr wybodaeth a ganlyn ar gael i'r Pwyllgor:
(1) y gwariant ar ofal sylfaenol yn GIG Cymru yn 2019-20 a'r diffiniad o ofal sylfaenol mae hyn yn ymwneud ag ef;
(2) yr adroddiadau gan y byrddau iechyd sy'n darparu diweddariad blynyddol ar eu cynnydd wrth symud adnoddau tuag at ofal sylfaenol;
(3) Adroddiadau cynnydd ar bob un o'r 19 prosiect gofal sylfaenol a chymunedol sydd i fod i gael eu cyflawni ledled Cymru erbyn 2021.

Ymateb Llywodraeth Cymru (1)

Derbyn. Mae ein diffiniad o ofal sylfaenol yn eang fel y nodir yn y Model Gofal Sylfaenol i Gymru. Yn ogystal â'r gwasanaethau hynny sydd dan gontract gan

feddygon teulu, deintyddion, fferyllwyr cymunedol ac optometryddion, mae ein diffiniad yn cynnwys hefyd yr amrywiaeth eang o wasanaethau, gofal a chymorth ar gyfer iechyd a llesiant pobl yn y gymuned ehangach.

Nid yw'r gwaith o newid cydbwysedd yn y system iechyd a gofal fel y nodir yn *Cymru Iachach* er mwyn darparu gwasanaethau sydd â mwy o bwyslais ar atal ac sydd ar gael yn y gymuned yn rôl sy'n unigryw i wasanaethau gofal sylfaenol, ac nid yw o unrhyw gymorth awgrymu fel arall. Mae angen cynllunio effeithiol ar draws y sectorau ac ni ellir ei olrhain drwy gyllidebau a thrwy gofnodi gwariant byrddau iechyd yn unig.

Mae gofal sylfaenol yn cynnwys llawer o wasanaethau, gyda chymysgedd o ddarparwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol a darparwyr dan gontract. Nid yw'n hawdd olrhain gwariant yn erbyn y diffiniad eang hwn gan ddefnyddio'r fformat cyfredol ar gyfer cyfrifon byrddau iechyd. Mae'r gwariant gofal sylfaenol yn y cyfrifon yn ymwneud â gwariant ar wasanaethau a ddarparwyd gan gontractwyr annibynnol yn unig.

Nid yw gwariant 2019-20 ar gael tan ar ôl diwedd y flwyddyn ac ar ôl i gyfrifon y GIG gael eu harchwilio. Ar gyfer 2018-19, roedd y gwariant ar ofal sylfaenol a adroddwyd yn adran gofal sylfaenol cyfrifon y byrddau iechyd yn £911.6 miliwn, a oedd yn cynnwys gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, a mathau eraill o Ofal Iechyd Sylfaenol.

Ymateb Llywodraeth Cymru (2)

Derbyn. Wrth i'r byrddau iechyd roi'r cynllun Cymru Iachach ar waith, mae'n ofynnol iddynt nodi eu cynlluniau o ran y gwasanaethau, y cyllid ac adnoddau'r gweithlu y byddant yn symud allan o'r ysbyty i'r gymuned wrth ddiwygio yn flynyddol eu cynlluniau tymor canolig integredig neu eu cynlluniau blynyddol. Yna mae Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r prif negeseuon a'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau hyn yn ei gynllun tymor canolig integredig cenedlaethol. Caiff yr holl ddogfennau hyn eu cyhoeddi ar-lein ac maent ar gael i'r Pwyllgor.

Mae enghreifftiau o wasanaethau sydd ar gael fwyfwy i bobl yn nes at eu cartrefi yn cynnwys awdioleg a gwasanaethau ar gyfer cyflyrau llygaid penodol.

Rydw i'n derbyn bod angen cyflymu a chynyddu'r broses o ran newid cydbwysedd y system ac rydym yn cryfhau ein gwaith o graffu ar gynlluniau byrddau iechyd. O 2020-21, bydd Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu adroddiadau ysgrifenedig ar gynnydd o ran gweithredu'r gwaith arfaethedig o symud gwasanaethau ac adnoddau fel y gellir craffu arnynt yn y cyfarfodydd perfformiad a monitro rheolaidd. Bydd yr adroddiadau hyn yn llywio'r gwaith o ddiwygio cynlluniau blynyddol/cynlluniau tymor canolig integredig. Rydym yn disgwyl i gynlluniau blynyddol/cynlluniau tymor canolig integredig gynnwys tystiolaeth o'r bwriad i symud gwasanaethau i ddarpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol. Fel y nodwyd, bydd y dogfennau hyn ar gael yn gyhoeddus.

Ymateb Llywodraeth Cymru (3)

Derbyn. Mae'r adroddiadau cynnydd ar gyfer pob un o'r 19 prosiect gofal sylfaenol a chymunedol wedi'u cynnwys yn yr atodiad atodedig (Gweler atodiad 1 - 20-02-10 – Diweddariad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Piblinell Gofal Sylfaenol).

Argymhelliad 6. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o eglurder mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol ynghylch y cyllid ar gyfer gofal sylfaenol a gweithgarwch cymunedol i ddangos sut mae'r cyllid hwnnw'n ategu'r newid mewn adnoddau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn mewn egwyddor. Fel yr eglurais uchod, mae'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r newid yng nghydbwysedd y system iechyd a llesiant yn gymhleth ac ni ellir ei olrhain drwy gyllidebau a chofnodi gwariant, ond drwy ddangos y newid yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol. Byddwn yn parhau i gynorthwyo byrddau iechyd i gryfhau eu gwaith cynllunio system gyfan drwy'r broses cynlluniau tymor canolig integredig. Mae cael yr arweinyddiaeth i lywio'r newid cydbwysedd hwn yn bwysig. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi arweinydd clinigol cenedlaethol er mwyn nodi pa wasanaethau sydd angen eu blaenoriaethu i gael eu cynllunio a'u cyflawni gan dimau aml-broffesiynol wedi'u trefnu ar lefel clwstwr.

Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion am:
▪ sut mae proses y gyllideb yn crynhoi holl gyfraniad y trydydd sector o ran darparu gwasanaethau;
▪ sut mae effaith tynnu arian yn ôl ar gyfer gwasanaethau a gyllidwyd yn flaenorol drwy'r Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cynaliadwy wedi ei fesur;
▪ pa drefniadau sydd ar waith i liniaru effeithiau tynnu'r arian hwn yn ôl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Mae Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector 2020-23 yn un elfen o'r cyllid o £80 miliwn a mwy sydd ar gael i gefnogi'r gweithgarwch sy'n cael ei wneud gan y sector statudol, y sector preifat a'r trydydd sy'n cefnogi blaenoriaethau Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y disgwyliad y bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dyrannu isafswm o 20% o'u cyllid refeniw Cronfa Gofal Integredig i gefnogi sefydliadau gwerth cymdeithasol erbyn 2021. Mae rhanbarthau'n gwneud cynnydd da tuag at y targed hwn ond mae angen gwneud rhagor o waith.

Nid oedd Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector 2020-23 yn ddigon i ateb yr holl alw amdano ac ar ôl cytuno i £1.2 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2020-21 yn erbyn y £7 miliwn a oedd ar gael i gychwyn, cymeradwywyd cyfanswm o 32 o geisiadau i dderbyn cyllid. Bydd y prosiectau a ariennir drwy'r grant hwn yn cefnogi gofalwyr, plant a phobl ifanc, pobl sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd, pobl ag anableddau dysgu a phobl hŷn. Roedd y ceisiadau a gyllidwyd yn darparu'r dystiolaeth gorau eu bod yn brosiectau a fydd yn cefnogi blaenoriaethau craidd y llywodraeth ac yn cael eu dosbarthu ar draws meysydd gwasanaethau.

Pan fo prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector 2019-20 wedi bod yn aflwyddiannus yn eu ceisiadau ar gyfer grant 2020-23, mae'r gweithgareddau hyn wedi cael eu hystyried fesul achos ac os oedd Gweinidogion yn credu eu bod yn angenrheidiol i'r gyflawni agenda Gofal Cymdeithasol, nodwyd cymorth amgen. Mae hyn yn cynnwys cyllid trawsbynciol a ddarparwyd o bortffolios Gweinidogol gwahanol fel cyllid o gyllidebau Cydraddoldeb ar gyfer llinell gymorth MENCAP.

Argymhelliad 8. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r trefniadau cyllido ar gyfer sefydliadau trydydd sector sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael setliad teg a chymesur gan y cyrff cyhoeddus a gyllidir i ddarparu gwasanaethu o'r fath.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn mewn egwyddor. Mae cyrff cyhoeddus yn derbyn y rhan fwyaf o'u cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol drwy'r Grant Cymorth Refeniw sydd heb ei neilltuo a mater i gyrff cyhoeddus yw pennu pwy maen nhw'n comisiynu gwasanaethau ganddynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â'r sector gwerth cymdeithasol/trydydd sector ac mae hyn yn cael ei ddangos drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae'r Gronfa'n cefnogi prosiectau amrywiol ar draws Cymru sy'n hyrwyddo gwaith partneriaeth gyda'r trydydd sector, er enghraifft cynlluniau dychwelyd adref a thimau adnoddau cymunedol.

Mae adroddiad blynyddol cyntaf y Gronfa Gofal Integredig, a gyhoeddwyd ar 16 Ionawr, yn dangos rôl werthfawr y trydydd sector wrth ddarparu amrywiaeth eang o brosiectau'r Gronfa Gofal Integredig ar hyd a lled Cymru.

Er mwyn cryfhau rôl y sector pwysig hwn, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddyrannu o leiaf 20% o'u cyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi sefydliadau gwerth cymdeithasol erbyn 2021. Mae rhanbarthau'n gwneud cynnydd da tuag at y targed hwn ond mae angen gwneud rhagor o waith a bydd hyn yn cael ei fonitro yn ystod 2020-21.

Argymhelliad 9. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu dadansoddiad o'r dyraniad wedi ei neilltuo o £700 miliwn ar gyfer iechyd meddwl.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gwrthod. Mae sefydliadau'r GIG yn darparu gwybodaeth monitro ariannol fanwl yn rheolaidd ac mae'r arian sydd wedi'i neilltuo yn cael ei fonitro drwy'r broses hon. Y ffigur hwn yw'r terfyn isaf ar gyfer gwariant ar Wasanaethau Iechyd Meddwl craidd ac ni chaiff gwariant fod yn is na'r ffigur hwn, ond nid yw o reidrwydd yn cynnwys yr holl wariant. Gwyddom hefyd fod Byrddau Iechyd yn gyffredinol yn gwario mwy na'r dyraniadau wedi eu neilltuo ar gyfer iechyd meddwl. Mae dadansoddiad o ddyraniad wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl ar lefel bwrdd iechyd ar gael yn y dyraniad y GIG a gyhoeddwyd (Tabl 2), ac mae dyraniad 2020-21 wedi'i gynnwys yn y ddolen isod (Cylchlythyr Iechyd Cymru (2019) 040): https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-01/dyraniadau-cyllid-bwrdd-iechyd-2020-21.pdf

Gofynnir i fyrddau iechyd ddarparu datganiad ar y defnydd o'r dyraniad wedi ei neilltuo ar gyfer iechyd meddwl drwy'r broses cynllun tymor canolig integredig a'r adroddiadau cynnydd ar gyfer cynlluniau cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl*.

Ers neilltuo'r dyraniad, erbyn hyn mae gennym ystod ehangach o wasanaethau iechyd meddwl, er enghraifft gwasanaethau cyswllt seicoleg ac argyfwng a thimau iechyd meddwl amenedigol cymunedol sy'n gallu ymateb i alw cynyddol am wasanaethau.

Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i sicrhau cydraddoldeb rhwng iechyd meddwl a chorfforol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn mewn egwyddor. Mae Cymru Iachach yn amlinellu'r dull cyfannol sydd angen i ni ei ddefnyddio er mwyn darparu triniaeth, gofal neu gymorth cyfartal i bobl gydol eu bywydau, boed yw'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl. Mae'r gwaith o weithredu Cymru Iachach yn destun craffu reolaidd.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mwy mewn gwasanaethau iechyd meddwl. Eleni (2019-20) rydym wedi buddsoddi £34 miliwn yn ychwanegol. Yn ogystal â'r buddsoddiad hwn, yn 2020-21, byddwn yn cynyddu gwariant iechyd meddwl £20.5 miliwn yn ychwanegol.

Mae hwn yn fuddsoddiad sylweddol a chynaliadwy mewn gwasanaethau iechyd meddwl ac rydym yn gweld canlyniadau sylweddol, yn cynnwys gwelliannau mewn amseroedd aros cyfartalog ac yn yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael.

Gwyddom hefyd bod mwy o bobl yn cael mynediad at gymorth iechyd meddwl, er enghraifft, gwelwyd cynnydd o 2,000 o atgyfeiriadau'r mis i Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol (LPMHSS) ers 2014-15. Yn ogystal, diweddariadau cynnydd ar weithredu'r cynllun cyflawni 2019-2022 *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* gydol oes y cynllun ar gael i'r cyhoedd.

Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd bod goruchwyliaeth wleidyddol briodol dros Chwaraeon Cymru a'i weithrediad.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Rydw i'n fodlon â lefel yr oruchwyliaeth o Chwaraeon Cymru. Rydw i'n cyfarfod â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn ffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn y Llythyr Cylch Gwaith a chynllun busnes y sefydliad. Mae fy swyddogion yn cydweithio'n agos â swyddogion Chwaraeon Cymru ac yn cyfarfod â'r Prif Weithredwr a'r uwch reolwyr, bob chwarter, i drafod materion strategol a gweithredol.

Argymhelliad 12. Rydym yn argymell, o ystyried arwyddocâd cynyddu cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol i'r agenda atal, bod Llywodraeth Cymru yn dangos rhagor o ymrwymiad i hyn yn rownd cyllideb y flwyddyn nesaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn mewn egwyddor. Mae cynyddu'n sylweddol lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru yn rhan annatod o'r agenda atal ar draws meysydd portffolio trawslywodraethol amrywiol; ac mae'n ymrwymiad allweddol yn ein strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu dewisiadau i gymell y bobl sydd lleiaf gweithgar yn gorfforol i fod yn fwy egnïol ac mae ein pwyslais parhaus a'n dull gweithredu yn adlewyrchu hyn, er enghraifft, drwy ddeddfwriaeth (Deddf Teithio Llesol); darpariaeth gwasanaethau (Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion); canllawiau (Canllawiau Prif Swyddog Meddygol y DU ar gyfer gweithgarwch corfforol); yn ogystal ag addysg (Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru). Rydym eisoes wedi cyflwyno ymrwymiadau cyllido newydd drwy gronfa atal o £7.2 miliwn y flwyddyn drwy raglen Adeiladu Cymru Iachach i gefnogi blaenoriaethau lleol a thrwy'r Gronfa Iach ac Egnïol o £5.4 miliwn dros dair blynedd. Rydym wedi gweithio hefyd er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd drwy fuddsoddiad pellach o £5.5 miliwn mewn Pwysau Iach: Cymru Iach yn cynnwys cynnig hamdden ar gyfer pobl 60 oed a hŷn. Rydym wedi ymrwymo hefyd i ddarparu £3 miliwn yn ychwanegol yn 2020-21 i Chwaraeon Cymru er mwyn buddsoddi yn y gwaith o ddatblygu'r dirwedd o gyfleusterau chwaraeon ledled Cymru, gan greu amgylcheddau sy'n galluogi pobl i fyw bywydau iachach a mwy egnïol. Byddwn yn cydweithio'n agos â Phartneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru

er mwyn sicrhau bod cynllun cyflawni yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithredu ar draws sefydliadau.

Argymhelliad 13. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o gyfraddau cyfranogi yn y fenter nofio am ddim ddiwygiedig cyn pen 12 mis ar ôl ei chyflwyno.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Mae gwaith gwerthuso yn rhan annatod o'r rhaglen a byddwn yn cyhoeddi cyfraddau cyfranogi a chanfyddiadau 12 mis ar ôl ei chyflwyno.

Argymhelliad 14. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal a chyhoeddi gwerthusiad o:
- **ba weithgareddau ychwanegol a ddarparwyd gyda'r £1.5 miliwn a ddyrannwyd yn flaenorol i'r fenter nofio am ddim;**
- **beth fu'r cyfraddau cyfranogi. Dylid gwneud hyn cyn pen 12 mis.**

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Derbyn. Mae fersiwn newydd o Nofio am Ddim yn mynd drwy gyfnod o bontio ar hyn o bryd. Yn dilyn yr adolygiad, cytunwyd y bydd Chwaraeon Cymru'n adolygu'r sefyllfa ar ôl 6, 12 a 18 mis. Yna byddant yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y sefyllfa ddiweddaraf ym mhob awdurdod lleol a'u partneriaid cyflawni.
O ran yr £1.5 miliwn ychwanegol, bydd pob awdurdod yn darparu manylion am wasanaethau eraill y maen nhw'n eu darparu yn seiliedig ar eu gwybodaeth am anghenion lleol, a hynny bob 6 mis hefyd.
Mae Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o argymhellion y pwyllgor a bydd yn darparu'r wybodaeth yn unol â hynny.

Gweler isod adroddiad cynnydd ar gyfer yr 19 prosiect gofal sylfaenol a chymunedol a nodwyd fel rhan o'r Biblinell Gofal Sylfaenol, y bwriedir eu darparu ledled Cymru erbyn 2021.

Nodir yr adroddiad fel a ganlyn:

1. Prosiectau adeiladau newydd cyfalaf;
2. Ailddatblygu asedau presennol cyfalaf; a
3. Prosiectau adeiladau newydd refeniw datblygwyr trydydd parti.

1. Adeiladau Newydd Cyfalaf

Maelfa

Cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Achos Busnes Amlinellol ym mis Tachwedd 2019 gydag uchafswm cyfalaf o £12.748 miliwn. Erbyn hyn mae'r Bwrdd Iechyd yn llunio'r Achos Busnes Llawn gyda dyddiad cyflwyno bras o fis Gorffennaf 2020.

Cogan

Mae Achos Busnes Amlinellol wedi dod i law ond mae'r broses o graffu wedi'i gohirio ar hyn y bryd wrth i'r Bwrdd Iechyd gydweithio â'r Awdurdod Lleol ar amodau cynllunio a'r cytundeb trosglwyddo tir.

Cross Hands

Mae'r Achos Busnes Amlinellol wedi dod i law ac yn mynd drwy brosesau craffu. Mae sylwadau craffu manwl wedi'u darparu i'r Bwrdd Iechyd ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n disgwyl ymatebion yn fuan fel y gellir cwblhau'r broses graffu.

Tredegar

Cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Achos Busnes Amlinellol ym mis Ionawr 2020 gydag uchafswm cyfalaf o £16.113 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n llunio'r Achos Busnes Llawn.

Dwyrain Casnewydd

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect gyda dyddiad cyflwyno disgwyliedig o hydref 2020.

Canolfan Iechyd a Llesiant Sunnyside (Pen-y-bont ar Ogwr)

Derbyniwyd yr Achos Busnes Llawn ar 3 Chwefror ac mae swyddogion a chynghorwyr Llywodraeth Cymru wrthi'n craffu arno.

Canolfan Llesiant Abertawe

Mae'r Bwrdd Iechyd yn symud ymlaen â cham cynllunio a chwmpasu'r cynllun ac yn trafod â chymdeithas tai ynghylch darparu'r prosiect. Mae'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd a fydd yn nodi'r ffordd ymlaen sy'n cael ei ffafrio a chynllun manwl unwaith y byddant wedi dod i gytundeb ynglŷn â'r ateb.

2. Ailddatblygu asedau presennol

Canolfan Iechyd Pen-clawdd

Mae'r prosiect i ailwampio ac ailddatblygu'r Ganolfan Iechyd wedi'i gwblhau, a bydd y contractwr yn trosglwyddo'n swyddogol ym mis Ionawr. Bydd cleifion yn cael defnyddio'r adeilad o 24 Chwefror 2020.

Clinig Cymunedol Murton

Daeth y prosiect ailwampio i ben ym mis Tachwedd 2019 gyda chost cyfalaf o £0.700 miliwn. Erbyn hyn, mae'r clinig yn darparu dwy ystafell driniaeth o'r radd flaenaf, ystafell ymgynghori, ystafell lleferydd ac iaith/cyfweld ynghyd â swyddfa ar gyfer nyrsys ardal, yn ogystal â derbynfa ac ardaloedd aros newydd gyda thoiledau anabl a chyfleusterau newid babanod

Canol Sir Ddinbych

Ar 8 Ionawr 2020, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Achos Cyfiawnhad Busnes o £3.158 miliwn i ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Rhuthun. Mae gwaith wedi cychwyn ar y safle ym mis Chwefror 2020. Bydd y prosiect yn hwyluso'r broses o adleoli gwasanaethau o Glinic Mount Street, Rhuthun ac ailddatblygu Ysbyty Cymunedol Rhuthun ynghyd â gwaith i uwchraddio cyfleusterau deintyddol yn Ysbyty Dinbych.

Canolfan Iechyd Tonypandy

Daeth y prosiect i ben ym mis Awst 2019 gyda chost alldro o £1.565 miliwn. Mae'r gwaith ad-drefnu ac ailwampio'n sicrhau bod ystod lawn o wasanaethau'n cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion cyfredol ac anghenion y dyfodol.

Cam 2 Dewi Sant

Cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Achos Cyfiawnhad Busnes o £7.811 miliwn ym mis Tachwedd 2019. Cychwynnodd y gwaith ar y safle ym mis Chwefror 2020. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd ystod o wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol yn cael eu dwyn ynghyd ochr yn ochr â gofal cymdeithasol ac amrywiaeth o gymorth gan y trydydd sector, er mwyn cynnig canolfan integredig, leol ar gyfer iechyd a llesiant.

Canolfan Gofal Integredig Aberaeron

Daeth y prosiect i ben ym mis Hydref 2019 gyda chost cyfalaf o £3 miliwn. Bydd y ganolfan yn darparu apwyntiadau meddyg teulu, gwasanaethau clinigol, gwasanaeth nyrsio ardal, timau gofal cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector a'r tîm amlddisgyblaethol Porth Gofal.

Canolfan Iechyd Abergwaun

Daeth y prosiect i ben ym mis Mawrth 2019 gyda chost cyfalaf o £0.646 miliwn. Cyfunwyd dwy feddygfa o dan yr un to yn y ganolfan er mwyn creu ateb mwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer darparu gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yn yr ardal.

Machynlleth

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd Iechyd yn diwygio'r Achos Busnes Llawn yn dilyn newid i'w bartner yn y gadwyn gyflenwi (adeiladu). Bydd y prosiect yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu canolfan gofal sylfaenol a chymunedol integredig gan ddarparu gwasanaethau cynaliadwy ac addas i'r diben yn un o asedau presennol y Bwrdd Iechyd.

3. Adeiladau newydd refeniw datblygwyr trydydd parti

Meddygfa Pentyrch

Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn mynd drwy'r camau cynllunio, ac mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned er mwyn cytuno ar y dull mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd.

Canolfan Gofal Sylfaenol Aberpennar

Mae achos busnes y Prosiect wedi'i gymeradwyo ac mae'r cytundeb datblygu wedi'i gytuno. Mae gwaith wedi cychwyn ar y safle a bydd yn cael ei gwblhau ac yn barod i'w ddefnyddio erbyn diwedd 2021.

Canolfan Gofal Sylfaenol Waunfawr

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi'r datblygwr 3ydd parti. Mae trafodaethau ar y gweill mewn perthynas â chynllun, cost a chyflawni fel y gellir cwblhau'r achos busnes.

Llanfair Caereinion

Mae'r Bwrdd Iechyd a'r datblygwr 3ydd parti a benodwyd ganddo yn cwblhau'r gwaith dylunio fel y gellir cwblhau'r achos busnes.